

Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD MISOL MAI 2018
14 Mai 2018 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

**Cyflwyniad gan Glesni Williams, Bywyd Gwylt Glaslyn ar
Weilch y Glaslyn**

Cafwyd cyflwyniad gan Glesni Williams ar Weilch y Glaslyn

Cafwyd hanes y ddau Weilch gwreiddiol yn cyrradd yn 2004.
Mae'r ddau Weilch yma yn parhau i ddychwelyd yn flynyddol a
thau 17/18 oed.

Dychwelant i Affrica yn ystod y Gaeaf – pellter o tua 3,500m.

Tua 20% o'r Gweilch sy'n goroesi am fwy na blwyddyn. Mae 9 o
gywion y Glaslyn wedi dychwelyd allan o 37.

Elusen gofrestredig yw Gweilch y Glaslyn, yn dibynnu ar roddion.
Ni chodir tâl mynediad i ymweld â'r Ganolfan.

Rhodddwyd gwahoddiad i'r Cyngor Cymuned ymweld â'r Ganolfan
tua mis Medi.

Diolchwyd yn fawr i Gwenan Williams am gyfleu gwybodaeth
ddiddorol am brosiect sydd bellach yn rhan annatod o'r gymuned
leol.

1. YMDDIHEURIADAU

Nyfain Wynn, Llio Griffiths

2. DATGAN DIDDORDEB

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 5 Mawrth, ond fod angen nodi
mai'r cyfraniad ariannol a wnaed i'r Wylan oedd £65.00

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Watts, Ifor Jones, Rhydwen Roberts, Nia Povey, Glyn Griffiths
Cadeirio: Dafydd Watts

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

Croesawyd y Cynghorydd Dafydd Watts yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Llio Griffiths yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2018/19.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Diweddariad gan Balfours, cynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Clough Williams-Ellis

Mynychodd Jonathan Lovegrove o Balfours ar ran Ymddiriedolaeth Clough Williams-Ellis.

Bu i'r Cynghorywr Glyn Griffiths a Dafydd Watts gyfarfod gyda hwy ym mis Rhagfyr, ble y trafodwyd amrwyiol bethau.

Parc Newydd- Bu bwriad i godi estyniad yn 2014, ond gwelwyd fod y gost yn ormodol. Yna bu bwriad i Barc Cenedlaethol Eryri droi'r ty yn ddau, a'i osod i bobl leol., ac os bwriedir gwneud hynny nawr bydd yn rhaid mynd drwy'r broses gynllunio unwaith eto

Trac Hafoty – mae yna 70 acer o goed i'w dorri. Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud i ddarganfod llwybr addas i fynd â coed oddi yno.

Cynllun Hydro Afon Croesor – Cais cychwynnol wedi ei wrthod 18 mis yn ôl. Cais yn awr wedi ei wneud ar gyfer ochr arall yr afon.- ochr Garth y Foel i'r rhaedrau. Cynllun 100kw. Mae'r cynllun yma yn un llai, ond yn fwy tebygol o lwyddo. Gobeithir gwneud cais cynllunio yn fuan.

Bydd cwt y tyrbîn wedi ei guddio uwchben y rhaeadr.

Gwaith Cymunedol- ceir y tri opsiwn isod o ran perthynas rhwng y tîrfeddianwr a'r gymuned.

- 1) Tîrfeddianwr a nifer o unigolion
- 2) Tîrfeddianwr ac endid cyfreithiol arwahan
- 3) Tîrfeddianwr yn gwneud yr holl waith, % o'r elw i'r gymdogaeth

Opsiwn 3 uchod a ffeirir gan yr Ymddiriedolaeth gan ei fod yn symlach

Mynegodd y Cynghorydd Dafydd Watts awydd i drafod y mater ymhellach unwaith y bydd caniatâd cynllunio wedi ei roi.

Amlygodd y Cynghorydd Ifor Jones fod coed yn culhau tir ar y ffordd i Croesor. Dywedwyd fod Ymddiriedolaeth Portmeirion yn ystyried beth allan nhw ei wneud i ddatrys hyn.

4.2 Bws Cymunedol

Er bod diddordeb cyffredinol gan bobl a chynghorau Cymuned lleol i sefydlu Bws Cymunedol, y farn gyffredinol oedd fod angen gwybod mwy am beth oedd yn bosibl yn gyntaf.

Cytunwyd mai'r cam nesaf fyddai gofyn i gynrychiolydd o Cysylltu Cymunedau yng Nghymru ddod i'r cyfarfod nesaf er mwyn egluro ymhellach.

4.3 Arosfan Fysiau

Mae Cyngor Gwynedd yn fodlon mewn egwyddor i Gerbydau Gwynfor ddefnyddio'r maes parcio o flaen siop Llanfrothen ar gyfer arsofan pentref Llanfrothen.

Ceir cysgod gan do'r caffî, ac mae digon o le i droi.

Cafodd y Cynghorydd Dafydd Watts gyfarfod efo cynrychiolydd o adran drafnidiaeth Cyngor Gwynedd, ac fe gytunwyd gwneud ymchwiliad pellach i'r mater, gyda ystyriaeth bellach i ddefnydd o'r safle yng nghyd-destun iechyd a diogelwch . Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud cynlluniau drafft ac yn eu danfon atom yn fuan ar gyfer trafodaeth bellch.

4.4 Damwain Cerbyd Wiltshire Foods

Gan nad yw'r Clerc wedi cael unrhyw ymateb i'w lythyrau a/neu e-byst a ddanfonwyd o leiaf 6 gwaith, awgrymwyd y dylid ysgrifennu at y rhiant gwmni a/neu yr Asiantaeth Safonau Cerbydau, i wneud cwyn swyddogol.

4.5 Cytundeb Torri Gwair Mynwent Tan Lan

Cafwyd tri pris i dorri gwair mynwent Tan Lan. Penderfynwyd dyfarnu'r cytundeb i Dylan Edwards o Benrhyndeudraeth, wedi ystyried y pris a gynnigiwyd, a'r ffaith ei fod yn byw yn gymharol agos at y fynwent.

Bydd y gwair yn cael ei dorri 5 gwaith yn ystod y flwyddyn a'r drain a'r brwyn sy'n tyfu ar ochr y llethr yn cael sylw 2 waith y flwyddyn. Bydd hefyd yn torri ac yn tacluso'r coed sy'n tyru rhwng y beddi.

Penderfynwyd fod y toriadau torri gwair yn cael eu gwasgaru'n gymharol hafal yn ystod misoedd Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi bob blwyddyn.

Mae angen penderfynu ar y trefniadau gwagio biniau yn y cyfarfod nesaf. Mae'n bosibl y bydd Cyngor Gwynedd yn fodlon darparu'r gwasanaeth yma.

4.6 Pant yr Allt, Ffordd Morfa

Gofynnodd Cyngor Gwynedd am fwy o fanylion a y defnydd o'r safle. Mae'n amlwg fod y safle wedi ei ddefnyddio'n ddiweddar, ond mae hawl i wersylla am gyfnod o hyd at 28 diwrnod fel arfer ar dir.

4.7 Cyflwr 13 Garreg Frech

Ym Mai 2012 gwasanaethwyd Rhybudd o dan Adran 215 o'r Ddeddf Gynllunio Tref a Gwlad. Gan Barc Cenedlaethol Eryri. Roedd yn ofynnol i sbwriel a gwastraff gael eu symud o'r tir ac i dorri llystyfiant er mwyn cael mynediad i'r sbwriel a gwastraff. Gan na chydymffurfiwyd gyda'r rhybudd, trefnodd yr Awdurdod i gontractwr cario allan y gwaith priodol ym Mawrth 2013 a llewynyd sgip gyda sbwriel a gwastraff.

Ymwelwyd â'r safle eto a nodwyd bod eiddew yn tyfu ar waliau yr eiddo a bod fwy o lystyfiant. Fel arall, yn nhermau sbwriel a gwastraff, nid does dirywiad sylweddol o gyflwr y safle ar ôl gwaith yr Awdurdod yn 2013. Ni ystyrir bod cyflwr presennol y safle ag yr effaith y tyfiant ychwanegol ar fwynderau'r ardal yn cyfiawnhau camau gorfodaeth. Mae'r Awdurdod yn ceisio cysylltu â'r perchennog i gynghori dylid cymryd camau i reoli'r tyfiant ac i osgoi dirywiad pellach. Hysbyswyd Adran Tai Gwag Cyngor Gwynedd am y mater gan eu bod gyda phwerau a chyfrifoldebau perthnasol.

Cynghora y Parc fod y Cyngor Cymuned yn cysylltu gyda'r Adran Tai Gwag am fwy o gyngor. Gellir cysylltu gyda'r Swyddog Tai Gwag Elliw Guner drwy e-bostio elliwmairguner@gwynedd.llyw.cymru .

4.9 Torri coed B45110 A Brondanw i Croesor

Ysgrifennodd y clerch at Gyngor Gwynedd yn awgrymu mai mis Mehefin yw'r amser gorau i wneud y gwaith yma.

4.10 Tipio Slei Bach Roman Road

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ymchwilio, ond does dim tystiolaeth o bwy fu'n tipio'n slei bach yno. Byddant yn parhauil fonitro'r safle o dro i dro.

5. Gohebiaeth

- R.A.B.I. – Elusen Amaethyddol, cyngerdd 16 Mehefin, Dolgellau
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Gwobr Pentrefi Meirionnydd 2018-06-19
- Llythyr diolch gan Wyl Gerdd Dant Blaenau Ffestiniog

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth

6. Materion Ariannol

6.1 SSE Bil trydan Y Ganolfan 22/12/17-20/03/18 £52.38 – ad-dalu'r Clerch

- 6.2 Torri gwair mynwent Tan Lan, gwagio biniau'r fynwent, torri llwybrau, 2017/18, Anfoneb 66, Idris Jones, Pant Duon, Garndolbenmaen £2,664.00
- 6.3 Anfoneb Tyddyn Sachau, 28/03/2018, 5976, potiau blodau i'r fynwent £129.98
- 6.4 Un Llais Cymru, Anfoneb 390029/03/18 Cwrs y Cyngor fel Cyflogwr £40.00
- 6.5 Treth Annomestig y Ganolfan taliad Ebrill, Mai, Mehefin £81.85, £78.00, £78.00, cyfanswm £237.85
- 6.6 Derbyn taliad cynnal a chadw llwybr cyhoeddus 2017/18, 31 Mawrth 2018 £419.50
- 6.7 Derbyn taliad cyntaf Praesept 2018/19, 25 Ebrill 2018, £3,150
- 6.8 Agor cyfrif ar wahan i'r fynwent – cytunwyd y dylai'r clerch agor cyfrif ar wahan ar gyfer y fynwent, gyda chyfnod rhybudd o tua un mis
- 6.9 Adolygu Cyflog y Clerch – gohiriwyd hyn tan y cyfarfodnesaf

7. Ceisiadau Cynllunio

Dim

8. Materion Eraill

8.1 Cynnal a chadw Llwybrau Cyhoeddus

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd i'r cyfarfod nesaf

8.2 Rheoliadu Diogelu Data Cyffredinol 2018

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd i'r cyfarfod nesaf

8.3 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd i'r cyfarfod nesaf

8.4 Treth Annomestig Y Ganolfan

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd l'r cyfarfod nesaf

8.5 Penderfynu Cynrychiolaeth ar Bwyllgor Un Llais Cymru

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd l'r cyfarfod nesaf

8.6 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Ffioedd Claddu Plant

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd l'r cyfarfod nesaf

8.7 Cynnal Aseiad Risg o'r Ganolfan

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd l'r cyfarfod nesaf

8.8 Cytundeb Delwedd

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd l'r cyfarfod nesaf

8.9 Cwyn Cynllunio Posibl

Cafywd cwyn fod preswylwyr Ty'n Llan, Llanfrothen, wedi gsod sialet mawr yn eu gardd. Mae'r sialet o faint sylweddol o'i gymhru â'r ty.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennau at Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn gweld os yw perchennog y ty wedi cael caniatad cynllunio.

8.10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf 25 Mehefin 2018